# LC1292

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006

Mae’r Gorchymyn hwn yn darparu i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân, sydd wedi’i nodi yn Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân 1992 ac fel y mae’n effeithiol yng Nghymru ("y Cynllun"), barhau mewn grym yn ddarostyngedig i’r addasiadau a bennir yn y Gorchymyn. I raddau helaeth, mae’r newidiadau yn cynnwys disodli cyfeiriadau at "frigadau" ac "awdurdodau tân" gydag "awdurdodau tân ac achub" a newidiadau cysylltiedig; a’r diwygiadau canlyniadol i basio Deddf Partneriaeth Sifil 2004.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Ymhlith y pwerau galluogi a ddyfynnir, ceir "adran 26 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947, adran 12 o Ddeddf Blwydd-dal 1972 fel y mae wedi’i chymhwyso gan adran 16(3) o’r Ddeddf honno". Ni chafodd y pwerau hynny eu trosglwyddo i’r Cynulliad Cenedlaethol ac felly ni ellir dibynnu arnynt. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn arwyddocaol, mae pwer y Ddeddf Blwydd-dal a ddyfynnir yn cynnwys awdurdod penodol ar gyfer deddfwriaeth ôl-syllol yn adran 12(1). Mae’r Gorchymyn presennol yn gwbl ôl-syllol o ran effaith. Y mater sy’n codi felly yw a oes modd cyfiawnhau natur ôl-syllol o’r fath heb yr awdurdod penodol

hwnnw. [Rheol Sefydlog 11.7(iii)]

Polisi Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 oedd trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y Gwasanaeth yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac mae'n cynnwys yn adran 53 bwer i wneud darpariaeth ychwanegol, atodol a chanlyniadol, gan gynnwys diwygio deddfwriaeth gyfredol. Bernir y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ddefnyddio'r pwer hwnnw i'w alluogi i ddefnyddio'r pwerau y cyfeirir atynt yn nau baragraff blaenorol yr adroddiad hwn. Gellid ystyried yr angen am ddiwygiad o'r fath i'r pwerau a nodir, ac ychwanegu darpariaeth ar sail y diwygiad hwnnw fel mân wall drafftio at ddibenion y drefn Memorandwm Cywiriadau, gan na fyddai'n effeithio'r newidiadau a wneir i'r Cynllun gan y Gorchymyn arfaethedig.

Defnyddir iaith rhyw benodol drwy’r gorchymyn cyfan. Roedd hyn yn anochel o gofio arddull y cynllun gwreiddiol, a ddrafftiwyd gan ddibynnu ar y Ddeddf Ddehongli. Mae defnyddio rhagenwau personol mor aml â hyn mewn deddfwriaeth yn anarferol a byddai defnyddio’r ffurfiau "ef neu hi" yn feichus iawn. Yn yr un modd, byddai ailadrodd yr un enw yn anodd mewn deddfwriaeth fanwl fel yr un hon sy’n delio â’r hyn y mae gan unigolion hawl iddo. Efallai mai’r ffordd orau o ddrafftio deddfwriaeth o’r fath fyddai defnyddio’r lluosog lle bynnag y bo’n bosibl, ond dim ond gyda deddfwriaeth gwbl newydd y gellir mabwysiadu arddull wahanol o’r fath. [Rheol Sefydlog Order 11.7(vii)]

Ymddengys enghraifft benodol o iaith rhyw benodol yn nheitl Cymraeg y Gorchymyn. Er gwaethaf y newid a wnaed yn y teitl Saesneg yn 2004 o "Firemen" i "Firefighters", y teitl Cymraeg a fabwysiadwyd ar y pryd oedd "Dynion Tân" yn hytrach na "Diffoddwyr Tân". [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Felly, mae’r teitl ar yr achlysur hwn yn dilyn teitl y gorchymyn cynharach yn gywir, ar wahân i’r "y" a ddilëwyd o’r teitl, yn erthygl 1(1) ac eto ym mhennawd Atodlen 2, er ei fod yn ymddangos yn gywir ar ddechrau erthygl 2. Gellir cywiro hwn fel mân wall drafftio neu deipograffyddol drwy Femorandwm Cywiriadau. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

## Sylwadau

Tynnwyd sylw’r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Gorchymyn at yr ychydig wallau teipograffyddol sy’n addas i’w cywiro wrth gyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 13 Mehefin 2006